Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona.
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Ionawr 20fed - 2016
am 7.30 o'r gloch.

1. Presennol - Cynghorwyr Myrddin Roberts (Cadeirydd, MR), Geraint Parry (Clerc), Maldwyn Williams (MW), Dafydd Pritchard (DP), Alwena Roberts (AR), Rhian Hughes (RH), Lewis Davies (LD), ac Alwyn Rowlands (AL)

2.Ymddiheuriadau - Cyng. Bari Gwilliam, Mark Williams, Carwyn Jones

3. Datgan Ddiddordeb
DP ar drafodaeth difrod ar Rhos Llanddona a thrafodaeth rhodd i Capel Peniel
MR ac AR ar drafodaeth Gwelfryn, Llanddona - aelodau o'r teulu.

4.Cofnodion
Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16ddeg o Ionawr yn gywir gan Cyng. M Williams, eilio gan Cyng. A Roberts.
Agorwyd y cyfarfod gyda phwynt 9.

5. **Materion yn codi o'r Cofnodion**
5.1 **Fynwent Llanddona** - arbenigwyr yn gweithio ar y safle ac wedi cael hyd i fedd dwbl sydd yn hollol unigryw. LD i gysylltu ar Cyngor Sir ar Prifysgol er mwyn cael fwy o wybodaeth.
5.2 **Cerrig ger Llain Gron** – cerrig dal ar ochr y ffordd. MR dim wedi cael y cyfle i drafod y mater gyda'r perchennog.
5.3 **Baw Cŵn** - arwyddion wedi ei derbyn. MW yn cynnig ei gosod o gylch y pentre'.
5.4 **Biniau lleol –** oes angen ail lleoli biniau? – dim cynnig yn dod ymlaen.
5.5 **Llwybr Tai Bach -** Clerc wedi anfon yr adroddiad o gwmpas i'r aelodau. Ydi'r Adran Priffyrdd wedi cysylltu â pherchennog Cherry Tree Cottage ynglyn ar orchymyn diwygio?
5.6 **Eisteddfod Genedlaethol Môn** - cyfarfod ar y cyd wedi ei drefnu 9/02/16 am 7.30 yn Neuadd Pentre' Llangoed.
5.7 **Cais Gwelfryn -** (12/15) Clerc dim wedi derbyn gwybodaeth fanwl a gofynnwyd gan gyfreithiwr y perchennog. MW - yn adrodd bod person lleol yn meddwl pwrcasu'r plot yma.

6. Adroddiad gan y Cynghorydd
- LD - tyllau lonydd yn cael ei gau gan adran priffyrdd. LD i anfon rhestr ychwanegol i'r Cyngor Sir.
- LD - wedi derbyn gwybodaeth bod problem gyda'r pwmp yn Llanddona lle mae carthion yn gorlifo i mewn i Afon Cadnant. Cyfarfod wedi trefnu gyda Dwr Cymru i drafod materion lleol.
- LD - Sipsiwn a Theithwyr, rhaglen pwyllgor gwaith yn argymell gwneud safle ger y ffordd ym Mhorthaethwy yn barhaol heb ddim ymgynghori gyda'r cyhoedd. Mae'r safle yma ar ochr ffordd twristiaeth brysur ac yn llanast i bawb ei weld. Cyfarfod cyhoeddus wedi ei drefnu ar 22/01 yn Neuadd Pentre' Llandegfan. Clerc i gysylltu ar Cyngor Sir i egluro bod y Cyngor Cymuned yn erbyn y cynnig yma.
- AR - yn y polisi newydd mae dyletswydd i awdurdodau ddarparu safleoedd i sipsiwn a theithwyr. Mae swyddogion y Cyngor Sir wedi asesu a chrybwyll tri safle, Pentraeth, Mona a Parc Cybi.
- AR – Cyngor Sir yn gwneud cais am arian i Llywodraeth Cymru am gost atgyweirio'r difrod ac atal llifogydd pellach.
- AR - Pobl Seiriol bellach wedi cael ei ail-enwi Alliance Seiriol. Mae gan y grŵp swm o £10k i rannu, lle mae £2k wedi mynd i dalu yswiriant y bws mini. Hyn yn gadael £8k i rannu rhwng Llanddona, Llangoed, Llandegfan a Biwmares ar gyfer gryfhau cymunedau. Bydd ceisiadau yn cael eu hystyried yn ystod cyfarfod ar 25/02/16 am 6 o'r gloch yn Canolfan Biwmares. Bydd angen gael cynrychiolydd o bob un o'r Cyngor Cymunedau a Thref yn y cyfarfod er mwyn i'r cais cael ei gysidro. Fydd hefyd cyfle i greu pwyllgor, cadeirydd ayyb yn ystod y cyfarfod. RH - fuasai gosod y defibulator yn y Neuadd yn syniad?
- AR - Scottish Power yn cefnogi prosiectau cymunedol unigryw gyda Menter Môn yn ward Seiriol i gefnogi cymunedau i ddysgu a defnyddio trydan gyda manteision cymunedol.

7. Ceisiadau Cynllunio
Er Gwybodaeth
- 22C227 - Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu ym Minffordd, Llanddona - wedi ei caniatau.

8. Plot Glandŵr

Cyngor Sir wedi glanhau'r ffos gyfagos lle mae'r a'r deunydd sbwriel wedi ei adael ger yr ochr. LD i drafod y mater gyda'r Cyngor Sir.
Clerc yn egluro bod angen i berchennog Glandŵr gwneud cais i Gaerdydd o gylch ail-wynebu' tir comin, ac felly nid yw'r Cyngor Cymuned yn gweithredu'n anghyfreithlon.

9. Llwybr Arfordirol
(12/15) Sioned Jones Swyddog Mynediad i'r Arfordir - yn egluro'r posibilrwydd o greu rhan newydd o lwybr, yn ymestyn o'r tir ymddiriedolaeth genedlaethol yn Bryn Offa hyd at Fedw Fawr, tua 3.5km o lwybr newydd. Ynghlwm i hyn, buasai cais yn dileu llwybr trwy iard fferm Tan Dinas, ac i lawr i chwarel Tan Dinas, tua 1.6km. Fydd hyn yn adlinio'r llwybr i fod yn agosach i'r arfordir.
Ychwanegol, cynigir linc rhwng y llwybrau o gylch ardal bwrdd Arthur.
Nodwyd - bod y Cyngor Cymuned yn gytûn, dim ond os yw'r tirfeddianwyr a ffermwyr yn fodlon. Y cam nesaf i'w gwneud pethau yn gyfreithiol.

10. Tir Comin
10.1 MR yn diolch i bawb a drodd i fyny ar gyfer y sesiwn gwirfoddoli ar 16/01/16. SH am drefnu ail sesiwn.
10.2 Angen torri coeden gyferbyn a'r gilfan ac eiddo Cae Gors. Clerc i drafod gyda SH.
10.3 Deallir bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol o'r gwaith oedd ddim wedi ei ganiatáu ar Rhos Llaniestyn. Dim newyddion ymhellach.

11.Cyfrifon
- Clerc yn egluro incwm a gwariant hyd at chwarter 3.
- Praesept 2016/17. Dilyn trafodaeth penderfynwyd yn unfrydol i beidio â chodi'r praesept.

Incwm
- Derbyniwyd incwm 3ydd precept - £1,716.67

Gwariant
- Talu cyflog y Clerc Hydref/Rhagfyr - £428.33
- Talu hurio ystafell cyfarfod - £160.00

12.Gohebiaeth
E-bost - cofnodion cyfarfod Pobl Seiriol
E-bost – Llwybr Arfordirol
E-bost – Cyngor Sir, llwybr cyhoeddus ger bryn awe
E-bost - Gwelfryn
E-bost – Taith beics
E-bost – cylch gorchwyl Alliance Cymunedl Seiriol
E-bost – Tyn Llan, Glas
E-bost – Rhos Llaniestyn
Llythyr – Un Llais,
Llythyr - Cyngor Sir, ymgynghoriad o osod tai Cymdeithasol
Llythyr – Precept 2016/17

13. UFA:
13.1 RH (01/16) - yn pryderu eto bod y Cyngor Sir dim yn graeanu lôn Hafoty. Mae'r ffordd yma yn gyswllt pwysig i'r pentref. LD i godi'r mater gyda'r Cyngor Sir.
13.2 RH - rhoddodd wybodaeth ddiweddaraf o ran grant loteri ar Hen Ysgol.
13.3 (01/16) Derbyniwyd cais gan gwmni Glas, gofyn mewn egwyddor fuasai'r Cyngor Cymuned yn caniatáu gosod peipen carffosiaeth drwy'r tir comin i safle Tyn Llan. Clerc i gysylltu ar gwmni am fwy o wybodaeth.
13.4 Cyfarfod 17/02 i drefnu taith beics cymunedol ar 06/06.
13.5 Hanner Marathon 6/03/16 - cau'r ffordd A545 dros dro rhwng Porthaethwy a Biwmares o 8.30 – 12.30.
13.6 Cwyn bod canghennau coed wedi ei gadael ar y llwybr cyhoeddus ger Bryn Awel.
13.7 Ymgynghoriad ar ffordd newydd o osod Tai yn agored tan 6/03/16. Dau opsiwn dan sylw, Opsiwn a - parhau i osod tai trwy bwyntiau neu opsiwn b - trwy system bandio.

14.Dyddiad cyfarfod nesaf:
Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei gyfraniad.
Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.45 o'r gloch.
Penderfynwyd trefnu cyfarfod nesaf ar 17/02/16 am 7.30 yn Capel Peniel.

Llofnod y Cadeirydd Dyddiad